Heulwen Evans

Fy enw i yw Heulwen Anne Evans, rydw i’n 30 mlwydd oed ac yn dod o Langyndeyrn. Roedd fy ngradd cyntaf yn y Gyfraith, ond fy ngwir angerdd yw Diwinyddiaeth. Mae astudio yng Ngholeg y Drindod Bryste wedi bod yn brofiad ardderchog, ac rwyf yn ddiolchgar dros ben am hyn. Mae wedi bod yn gymaint o fendith i fod yn rhan o gymuned mor wych ac yn awr rwy'n hynod o gyffrous i symud i Blwyf Henfynyw ac Aberaeron gyda Llanddewi Aberarth a Llanbadarn Trefeglwys. Wrth dyfu i fyny a byw ar fferm roedd Salm 23 ar fy meddwl o hyd; mi fydd yn parhau i fod yn ddarn cysurus ac ysbrydoledig i mi mewn sawl ffordd, yn enwedig nawr, yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn. Yn ogystal â helpu ar y fferm, rwy'n mwynhau cerdded, darllen llyfrau ffeithiol, ymweld a llefydd hanesyddol a threulio amser gyda theulu a ffrindiau.